



## Cylchlythyr Tymor yr Haf 2010

Cyfarchion cynnes ar yr adeg o'r flwyddyn pan mae Cytûn brysuraf gyda'n gwaith o ddod â'r eglwysi ynghyd i dystiolaethu. Cyhoeddir y cylchlythyr hwn ychydig wythnosau ar ôl llwyddiant mawr pabell yr eglwysi yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanerchaeron. Rydym bellach ar drothwy cynnal pabell yr eglwysi yn Sioe Frenhinol

Cymru yn Llanfair-ym-Muallt. Ymlaen â ni wedyn i'r Eisteddfod Genedlaethol fis Awst. Galwch heibio i'n gweld wrth i ni dystio, mwynhau cymdeithas, cynnig gofal bugeiliol ac addoli ynghyd.

Diolchwn i Dduw am y bendithion hael rydym wedi eu profi eisoes eleni a gofynnwn am eich gweddiâu wrth i ni gynnig llwyfan i waith yr eglwysi'n tystio a chynnig gofal bugeiliol yn y digwyddiadau cenedlaethol hyn. Gweddiwch dros Rhian Linecar, yr aelod o staff Cytûn sy'n arwain y gwaith hwn.



## Uchafbwyntiau Diweddar

Bu llawer o uchafbwyntiau gwahanol iawn i'w gilydd yng nghalendr Cytûn yn ddiweddar. Cafwyd bendith fawr pan aeth Cymuned Gatholig Cymru ar bererindod fis Mai i Douai yn Ffrainc i goffáu'r Sant John Roberts o Drawsfynydd. Bu'n gyfle arbennig i gymdeithasu, i weddio a mwynhau'r profiad o bererindota.



Derbyniodd Cytûn lythyr gan Heddlu De Cymru yn diolch am ein hymdrechion i gynnal undod rhwng cymunedau adeg ymweliad Cynghair Amddiffyn Cymru/Lloegr â Chaerdydd ddydd Sadwrn 5 Mehefin. Daeth nifer da o bobl i'r Wylnos Heddwch a drefnwyd gan Cytûn ar risiau'r Senedd y noson cyn y brotest, gan ddod a dilynwyr sawl cymuned ffydd ynghyd.

At ddiwedd Mehefin gofynnodd Cyngor Dinas Caerdydd am gymorth Cytûn gyda llunio'r gwasanaethau coffa ar gyfer Diwrnod y Lluoedd Arfog. Buom yn gweithio'n agos ac yn llwyddiannus gyda chaplaniaid i baratoi ar gyfer diwrnod a ddenodd rhwng 50,000 a 80,000 o bobl ac a ddarllledwyd ar draws y byd.

## **Atebolrwydd**

Ceisiodd Cytûn hefyd gynnig mesur o atebolrwydd uniongyrchol i'r eglwysi a'r enwadau sy'n aelodau ac i'n chwaer asiantaethau drwy gyflawni'r canlynol: mynychu cyfarfodydd Bwrdd EYMI ym Manceinion a Llundain, cefnogi cyfarfodydd swyddogion eciwmenaid yr enwadau a chael ein croesawu i gyfarfodydd blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yng Nghaerfyrddin ac Undeb Bedyddwyr Cymru yn Llanelli. Adroddwyd am waith Cytûn hefyd gerbron cyfarfod Cynhadledd Esgobion Catholig Cymru a Lloegr yn Leeds ac yng nghyfarfod Mainc Esgobion yr Eglwys yng Nghymru yn Llandaf fis Mehefin.

Cafodd Cytûn groeso cynnes yng Nghymanfa Gyffredinol yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig yn Loughborough. Achos llawenydd mawr i'r cynrychiolwyr o Gymru fu dyfarnu gwobr arbennig i waith y Tîm Cyfiawnder Lloches sy'n gweithio o Eglwys y Ddinas, Caerdydd. Roeddwn yn falch o gael cyfrannu at y drafodaeth ynghylch caethiwo plant.

## **Cynorthwyo'n Lleol**

Gan gydnabod bod cefnogi eciwmeniaeth leol yn flaenoriaeth yng Nghynllun Gwaith Cytûn, buom yn cynorthwyo gydag ymdrechion eciwmenaid penodol ac oedfaon eciwmenaid ar hyd a lled Cymru. Ers y Pasg bu'r staff yn cefnogi gwaith eglwysi lleol yn ardaloedd Bangor, Penarth, Clydach, Y Barri, Wrecsam, Caerffili, Caerdydd, Aberdâr, Pontypridd, Pont-y-clun, Efail Isaf, a Phen-y-bont ar Ogwr. Buom hefyd yn cynorthwyo'r Parchedig Irvan John gyda'i waith arloesol yn cefnogi cymunedau Cristnogol lleiafrifol ethnig a sefydlwyd yn ddiweddar ar draws Cymru.

Cyflwynir papur i Fwrdd Cytûn fis Medi yn amlinellu drafft o'n hymrwymiad i gefnogi ymdrechion eciwmenaid lleol a rhanbarthol. Byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallai'r rhai sy'n ymwneud â gwaith eciwmenaid lleol a rhanbarthol gysylltu â mi i ddweud pa gymorth yr hoffent ei gael gan Cytûn fel offeryn eciwmenaid cenedlaethol.

## **Ffydd a Threfn**

Parhaodd Cytûn i hybu gwaith Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol yn arbennig drwy waith Rhian Linecar yng nghyfarfodydd Cyngor Cenhadol Eciwmenaid Dwyrain Caerdydd.

Yn gyffredinol, bu Rhian yn gweithredu fel person cyswllt â'r Comisiwn ac yn ddiweddar trefnodd a mynychodd gyfarfod rhwng y Cyngor Cenhadol ac Arweinwyr yr Eglwysi Cyfamodol lle trafodwyd

dyheadau amrywiol parthed dyfodol y bartneriaeth. Parhaodd Rhian i wasanaethu Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol a Chyngor yr Eglwysi Rhyddion. Aeth hefyd i Birmingham fel aelod o'r grŵp sy'n adolygu hyfforddiant Swyddogion Eciwmenaid ar gyfer 2011 a mynychodd y Kirchentag ym Munich ar ran Cytûn. Cyflwynir adroddiad yng nghyfarfod Bwrdd Cytûn fis Medi.

## **Yr Eglwys a Chymdeithas**

Bu nifer o ddatblygiadau allweddol gyda'n gwaith yn y maes cyhoeddus yr haf hwn. Geraint Hopkins yw'r aelod staff sy'n arwain yn y gwaith hwn o fewn Cytûn. Bu'n anfon nodiadau briffio rheolaidd i'n heglwysi ynglŷn â pholisïau ac ymgynghoriadau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cysylltwch â Geraint am fanylion pellach.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi ei rhaglen ddeddfwriaethol yn y Senedd, rhaglen a weithredir o fewn cyd-destun y toriadau anodd a phoenus a ragwelir yng nghyllideb y Cynulliad yn ystod y blynyddoedd nesaf. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi y bydd yn derbyn cymaint ag y gellir o'r toriadau a gyhoeddodd y Canghellor yn ei Gyllideb ar gyfer 2010/2011 eleni er mwyn lleihau i'r eithaf y toriadau a fyddid fel arall yn cael eu dwyn ymlaen i'r flwyddyn nesaf. Fodd bynnag, mae'r Gweinidogion wedi ymrwmo i sicrhau bod y gwariant cyfalaf ar ieuchyd, addysg, tai a gofal cymdeithasol yn cael ei amddiffyn.



## **Gwaith Rhyngwladol Cytûn**

Bu Cytûn yn falch i groesawu Naim Ateek, Cyfarwyddwr Sabeel, Palesteina, a Chyfeillion Sabeel yn y Deyrnas Unedig ar ymweliad ar 1 Gorffennaf 2010. Mudiad Diwinyddiaeth Rhyddhad Cristnogol yw Sabeel sy'n gweithredu ym Mhalesteina ac sy'n hybu dulliau di-drais o sicrhau cyfiawnder cymdeithasol yn y Dwyrain Canol.

Aeth Cynullydd Chyfeillion Sabeel yn y DU, Mrs Ann Clayton, ac aelodau o'r mudiad hwnnw gyda Naim i'r Senedd. Cawsant eu croesawu gan Geraint Hopkins, Swyddog Polisi Cytûn, a'r Dr Brian Gibbons, yr Aelod Cynulliad ar gyfer Aberafan a chyn aelod o Gabinet Llywodraeth Cynulliad Cymru. Amlinellodd Dr Gibbons a Geraint y pryder a fynegwyd yn y Cynulliad ac ymhlith eglwysi Cymru ynghylch yr anghyfiawnder y mae gymaint o bobl Palesteina'n parhau i'w ddiodef.

Cyfarfu Fforwm Rhyngwladol Cytûn, o dan gadeiryddiaeth y Parchedig Christopher Gillham o'r Gynghair Cynulleidfaol, yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Buont yn trafod y sefyllfa yn Israel a Phalesteina ac yn arbennig yr ymosodiadau diweddar ar y llongau sy'n ceisio torri'r gwarchae ar Gaza. Derbyniasant adroddiad ar daith arfaethedig y Fforwm Rhyngwladol i Syria y bu'n rhaid, yn anffodus, ei chanslo yn dilyn ffrwydrad y llosgfynydd a amharodd ar bob awyren a oedd i hedfan o'r Deyrnas Unedig ar y pryd. Cytunodd y Fforwm y dylid mewn egwyddor aildrefnu'r ymweliad ar gyfer adeg arall.

Cyflwynodd y Parchedig Ganon Robin Morrison, Ymgynghorydd yr Esgobion ar yr Eglwys a Chymdeithas yn yr Eglwys yng Nghymru, adroddiad ynghylch degfed pen-blwydd y ddeialog rhwng yr Eglwys Anglicanaidd a'r gymuned Fwslimaidd yng Nghymru. Cafodd yr achlysur ei ddathlu'n ddiweddar mewn cinio yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd, gyda Phrif Weinidog Cymru, Carwyn Jones ymhlith y siaradwyr.

Bu trafodaeth fer ynghylch Albania, a chytunwyd i gysylltu â Llysgenhadaeth Albania yn Llundain er mwyn cryfhau cysylltiadau'r eglwysi â'r wlad honno a dysgu mwy am ddatblygiad economaidd a chymdeithasol y wlad ers dymchwel Comiwnyddiaeth yno. Cytunwyd i gynnal cyfarfod ym Mhrifysgol Aberystwyth yn y dyfodol er mwyn ei gwneud yn haws sicrhau siaradwyr o Adran Ryngwladol ragorol y Brifysgol. Cytunodd y Fforwm hefyd i ofyn am gyfarfod gyda Llysgenadaethau Albania, Syria ac efallai America yn Llundain ac yna gyda'r Ysgrifennydd Gwladol newydd dros Faterion Tramor a Materion y Gymanwlad, William Hague.

**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol** - Dim ond i'ch atgoffa i gloi y cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol nesaf Cytûn ynghyd â chyfarfod o'r Grŵp Galluogi yn Llandudno am 11.30 y bore ar 19 Hydref 2010. Anfonir manylion pellach at yr aelodau yn nes at y dyddiad hwnnw.

Pob bendith i chi dros yr haf,



Y Parchedig Aled Edwards OBE  
Prif Weithredwr Cytûn

Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru, 58 Heol Richmond, Caerdydd CF24 3UR 029 2046 4375 post@cytun.org.uk Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 5853982 | Enw cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Cyfyngedig" | Mae Cytûn yn elusen gofrestrdedig | Rhif: 1117071